


# FFRAMWAITH LLETY A CHYMORTH I YMADAWYR GOFAL YNG NGHYMRU

## Canllaw Arfer Da

**sheltercymru.org.uk**
Charity no. 515902

SHELTER CYMRU

Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru
In Partnership with Welsh Government

# CYNNWYS

Cyflwyniad ............................................................... 1
Paratoi ar gyfer Realiti Dewisiadau Tai ..................... 1
Cynllunio Dewisiadau Llety a Chymorth Pobl Ifanc gyda Nhw ................................................................. 3
Lleihau'r Argyfwng Tai ............................................ 4
Cael Mynediad at Dai a Chymorth yn ôl yr Angen ..... 5
Cyrchu a rheoli'n llwyddiannus ddewisiadau symud ymlaen a chymorth mwy hirdymor ............... 6

# CYFLWYNIAD

Mae'r canllaw hwn yn amlinellu enghreifftiau o arfer da y gellir eu defnyddio i helpu ymarferwyr i gyflwyno ac asesu eu cynlluniau yn erbyn y Fframwaith Llety a Chymorth i Ymadawyr Gofal. Bwriedir i'r ddogfen hon gael ei defnyddio gan ymarferwyr sydd eisiau dysgu am gynlluniau eraill ledled Cymru er mwyn helpu i hyrwyddo arfer da ar gyfer pob agwedd sydd wrth wraidd y Fframwaith.

# PARATOI AR GYFER REALITI DEWISIADAU TAI

Mae **prosiect Byw yn Annibynnol** yn codi ymwybyddiaeth o realiti digartrefedd ymysg pobl ifanc a byw'n annibynnol. Mae'r prosiect hwn, sydd wedi ennill nifer o wobrau, yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a Grŵp Cynefin. Mae'r prosiect yn gweithio mewn partneriaeth â Cartrefi Conwy, Tai Gogledd Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych ac mae'n cynnig amrywiaeth o raglenni addysg a chymorth ledled Conwy a Sir Ddinbych.

Mae'r prosiect yn cynnig gwasanaethau addysgol ataliol, hyblyg i bob ifanc (hyd at 25 oed) mewn ysgolion, addysg bellach, addysg amgen a mathau eraill o ddarpariaeth ieuenctid, ac i bobl ifanc sy'n agored i niwed megis y rhai sy'n gadael gofal a'r rhai sy'n byw mewn llety â chymorth. Mae'r prosiectau'n amrywio o gyrsiau ataliol wedi'u hachredu i bobl ifanc sy'n wynebu risg, i weithdai sgiliau untro. Hefyd, gall y prosiect weithio un i un gyda phobl ifanc sy'n wyneb risg fawr o fod yn ddigartref.

Un o fentrau addysgol y prosiect yw ei gêm fwrdd newydd, 'Byw yn Annibynnol', a ddatblygwyd gan y prosiect mewn partneriaeth â Grŵp Cynefin, Cartrefi Conwy, Tai Gogledd Cymru a Phrosiect Bus Stop.

Cynhaliwyd gwaith ymchwil a chanfuwyd bod rhyngweithio wrth chwarae gêm fwrdd yn fwy buddiol i ennyn diddordeb pobl ifanc mewn dysgu na'r llwybr mwy amlwg o greu gêm ddigidol. Mae'r gêm ddwyieithog, a ddatblygwyd gan y Rhwydwaith Tai Pobl Ifanc, sydd oll wedi profi digartrefedd eu hunain, ar gael i ysgolion a grwpiau cymunedol ledled Cymru i'w defnyddio fel adnodd dysgu. Mae Gemma Closs-Davies, Cydlynydd Prosiect Byw yn Annibynnol yn egluro: "Mae 'Byw yn Annibynnol' yn debyg i'r gêm fwrdd Monopoly mewn sawl ffordd. Rydych chi'n teithio o amgylch y bwrdd ac yn rhyngweithio gan ddibynnu ar y cerdyn senario rydych chi'n ei godi. Mae gennych chi bedwar diwrnod cyflog a phedwar diwrnod biliau trwy gydol y gêm, ac mae angen i chi reoli eich arian i sicrhau bod gennych chi ddigon i symud o amgylch y bwrdd." Mae adnoddau eraill wedi cynnwys y daflen Byw yn Annibynnol wreiddiol a'r cerdyn cyfeirio, a'r ap a'r wefan Byw yn Annibynnol yn www.goingitalone.co.uk

## Start Smart

Rhaglen fentora cymheiriaid ar Lannau Mersi yw Start Smart, a'i nod yw helpu pobl ifanc sy'n gadael gofal i baratoi i fyw yn annibynnol. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddatblygu a'i gynnal gan Barnardo's, ac mae'n hyfforddi unigolion hŷn sy'n gadael gofal i fod yn fentoriaid cymheiriaid, trwy gynllun hyfforddi achrededig. Mae'r mentoriaid hyn yn cefnogi pobl ifanc iau wedyn wrth iddyn nhw gymryd eu camau cyntaf tuag at fyw'n annibynnol. Ategir y rhaglen gan gymorth dwys gan staff i ddatblygu sgiliau bywyd a chymdeithasol ehangach.

## Adnoddau Shelter Cymru ar gyfer Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal

Mae gan Shelter Cymru[3] lawer o adnoddau ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal ac ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda nhw ac yn eu cefnogi:

**Llyfryn Gadael Gofal a Symud Ymlaen** –llyfryn byr ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal sy'n ymdrin yn fras â phynciau fel Dewisiadau Tai, Materion Ariannol, Symud i Mewn, Cyfrifoldebau Landlordiaid, Cyfrifoldebau Tenantiaid a rhai awgrymiadau ar gyfer gorchwylion o ddydd i ddydd a bod yn hapus.

**Addysg Gadael Cartref** – Gellir cyflwyno ein cynnig Addysg Gadael Cartref mewn unrhyw leoliad, wyneb yn wyneb ac yn rhithiol, a gellir ei addasu i ddiwallu anghenion penodol pobl ifanc sy'n gadael gofal. Gall y pynciau sy'n cael eu trafod gynnwys addysg sy'n helpu pobl ifanc sy'n gadael gofal i ddeall materion tai, dod o hyd i gartref, defnyddio systemau cymorth, deall hawliau a chyfrifoldebau tenantiaid a landlordiaid, deall materion ariannol, incwm a budd-daliadau, cyllidebu, a sgiliau ymarferol ar gyfer rheoli eu cartref cyntaf. Yn ei hanfod, mae'n becyn adnoddau sy'n ceisio addysgu pobl ifanc sut i ddod o hyd i dai a byw yn annibynnol yn llwyddiannus, yn iach, a gobeithio yn hapus.

**Pecyn Gweithgareddau Drysau Agored** – y pecyn hwn yw sylfaen cynigion addysg Shelter Cymru. Mae ar gael ar-lein fel dogfen i'w darllen yn unigol. Hefyd, mae'r pecyn wedi cael ei addasu'n fideos byr YouTube ar-lein er mwyn sicrhau hygyrchedd i bawb.



**Pecyn Trywydd Cywir** – mae'r Pecyn Trywydd Cywir yn Ganllaw Ymarferwyr Ieuenctid ar Dai a Digartrefedd, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer athrawon, tiwtoriaid, gweithwyr ieuenctid neu unrhyw un sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc naill ai am dâl neu'n wirfoddol. Mae'r pecyn yn darparu gwybodaeth am faterion tai amrywiol sy'n wynebu pobl ifanc, ac mae'n gallu helpu'r rhai sy'n gweithio gyda phobl ifanc i nodi problemau a chynnig atebion. Mae'n cynnwys adran benodol i helpu unrhyw un sy'n gweithio gyda phobl ifanc sy'n gadael gofal.

**Cwrs Tai a Digartrefedd Achrededig Lefel 2 neu 3 Agored Cymru** – mae'r cwrs achrededig yn debyg i'r Sesiynau Addysg Gadael Cartref a gynhelir gennym ac mae'n seiliedig ar Becyn Gweithgareddau Agor Drysau. Fodd bynnag, mae angen cwblhau isafswm o 10 awr o ddysgu â chymorth a chwblhau llyfryn seiliedig ar waith fel prawf o'r dysgu hwn er mwyn pasio'r cwrs achrededig. Ar ôl cwblhau'r cwrs, mae'r dysgwyr yn derbyn achrediad a thystysgrif sy'n bwysig nid yn unig oherwydd ei bod yn datblygu eu hyder a'u sgiliau, ond hefyd oherwydd ei bod yn darparu tystiolaeth gadarn i'r person â phrofiad o fod mewn gofal bod yr unigolion hyn yn deall materion tai a digartrefedd. I bobl ifanc sy'n dechrau byw'n annibynnol am y tro cyntaf, ac nad oes ganddyn nhw unrhyw eirda blaenorol i'w roi i landlordiaid, mae'r achrediad hwn a'r dystysgrif hon yn gallu helpu i oresgyn rhwystrau sy'n atal pobl ifanc rhag cael mynediad at dai yn y lle cyntaf. Mae Shelter Cymru wedi datblygu perthynas â Charchar y Parc i gyflwyno cwrs achrededig Tai a Digartrefedd Agored Cymru i bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac sydd ar fin cael eu rhyddhau o'r carchar.

**Tudalennau Cyngor i Bobl Ifanc Shelter Cymru** – mae'r tudalennau ar-lein i Bobl Ifanc yn cynnwys gwybodaeth i baratoi pobl ifanc ar gyfer gadael gofal.[1]

1 Os oes gennych unrhyw gwestiynau am adnoddau atal yn gynnar Shelter Cymru, e-bostiwch: education@sheltercymru.org.uk

## Paratoi ar gyfer Realiti Dewisiadau Tai - Arfer Da

- Meddyliwch sut y gallwch fanteisio ar brofiad pobl ifanc eraill i gynghori ac arwain pobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae pobl ifanc yn dysgu'n well oddi wrth ei gilydd yn aml, yn enwedig pan fyddan nhw'n cael eu rhybuddio am heriau sydd ar y gweill. Mae hyfforddi neu fentora cymheiriaid, neu hyd yn oed ffilm fer sydd wedi'i gwneud gan bobl ifanc i'w dangos i eraill, yn gallu bod yn ddulliau effeithiol iawn
- Gall cydweithio agos rhwng timau dewisiadau tai, plant sy'n derbyn gofal, ac unigolion sy'n gadael gofal, helpu i ddatblygu gwybodaeth staff a'u gallu i gynnig cyngor da, realistig i'r rhai sy'n gadael gofal. Mae cynnwys aelod o staff o awdurdod tai neu ddarparwr tai mewn gwasanaeth gadael gofal wedi profi i fod yn hynod effeithiol mewn nifer o awdurdodau
- Mae angen gwybodaeth realistig ar ofalwyr maeth a phreswyl, gweithwyr cymdeithasol a swyddogion adolygu annibynnol am y dewisiadau tai sydd ar gael yn lleol er mwyn gallu trosglwyddo'r wybodaeth hon i bobl ifanc
- Mae dealltwriaeth dda o ddata ar blant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n gadael gofal ar lefel strategol yn gallu gwella cynlluniau hirdymor
- Sicrhau bod gan bobl ifanc fynediad at gyrsiau hyfforddi achrededig yn ymwneud ag ymwybyddiaeth o gyn-denantiaeth neu sgiliau bywyd. Bydd hyn yn eu galluogi i ennill cymwysterau neu gredydau ychwanegol tuag at gyrsiau astudio. Hefyd, mae angen i bobl sy'n gadael gofal wybod sut i gael gafael ar ragor o gyngor ar denantiaeth pan nad ydyn nhw'n derbyn gwasanaeth gadael gofal bellach (yn 21 oed neu'n 25 oed ar gyfer y rhai mewn addysg a hyfforddiant), felly efallai y bydd angen eu cyfeirio at ddewisiadau tai a gwasanaethau cynghori prif ffrwd
- Wrth gynllunio gyda phobl ifanc ar gyfer eu dewisiadau llety unigol, ceisiwch roi dewis iddyn nhw, ond byddwch yn realistig am yr hyn sy'n bosib ac ar gael yn yr ardal leol
- Wrth baratoi pobl ifanc ar gyfer realiti eu dewisiadau tai, mae angen gweithio'n agos gyda gofalwyr maeth a gweithwyr preswyl. Maen nhw'n debygol o adnabod pobl ifanc yn dda iawn, gan ddibynnu ar gyfnod y lleoliad, ac yn aml nhw sydd yn y sefyllfa orau i siarad â phobl ifanc sy'n gadael gofal am y dyfodol - ond mae angen y wybodaeth ddiweddaraf arnyn nhw i allu gwneud hynny

# CYNLLUNIO DEWISIADAU LLETY A CHYMORTH POBL IFANC GYDA NHW

## Gwasanaethau Cymorth Llamau

Asiantaeth trydydd sector yw Llamau sy'n gweithio gyda phobl ifanc a menywod sydd mewn perygl o fod yn ddigartref mewn sawl awdurdod lleol yng Nghymru. Mae wedi derbyn cyllid trwy Gronfa Integreiddio Arweinyddiaeth Leol y Weinyddiaeth Gyfiawnder i ddarparu prosiect partneriaeth arloesol i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â systemau i bobl ifanc sy'n gadael carchar.

Mae canran anghymesur o bobl ifanc wedi'u carcharu yn y DU ac mae traean ohonynt yn aildroseddu gan arwain at gost gymdeithasol ac ariannol sylweddol. Mae profiad/ymchwil helaeth yn pwysleisio sut mae anaeddfedrwydd datblygiadol pobl dan 25 oed yn cael ei ddwysáu gan 'ymatebion gan oedolion' i'w hymddygiad sy'n methu â mynd i'r afael ag anghenion cymhleth cysylltiedig megis profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Nodwyd bod profiadau o'r fath yn cynyddu'r perygl o ymddygiad byrbwyll/ymddygiad sy'n niweidio iechyd gan adael pobl ifanc yn agored i ddylanwadau negyddol sy'n atgyfnerthu cylchoedd troseddu.

Mae llawer o bobl ifanc yn cael eu rhyddhau o'r carchar heb rwydweithiau llety/cymorth priodol, gan leihau'r tebygolrwydd o sicrhau diogelwch, ymgysylltiad ac integreiddio cymunedol sy'n hanfodol i'w cynnydd. Er enghraifft, mae llety yn un o anghenion dros 40% o bobl ifanc o Gaerdydd, Bro Morgannwg a Gwent sy'n gadael carchar , ac mae dros 200 o bobl ifanc sy'n gadael carchar bob blwyddyn yn gofyn i Gyngor Caerdydd am gymorth gyda digartrefedd - fel arfer ar adeg argyfwng y gellir ei atal. Methiant Perthynas Deuluol sy'n bennaf cyfrifol o hyd am bob math o ddigartrefedd ymysg pobl ifanc, ac mae newidiadau i ddeddfwriaeth angen blaenoriaethol, diwygiadau lles ac agweddau negyddol landlordiaid preifat yn gwaethygu'r sefyllfa i bobl sy'n gadael carchar.

Mae'r bartneriaeth yn treialu cyfres arloesol a hyblyg o ymyriadau penodol sy'n ystyriol o drawma sy'n bodloni anghenion penodol pobl ifanc (18-25 oed) sy'n gadael CEF Caerdydd/CEF y Parc; gan roi blaenoriaeth i'r rhai sydd â chysylltiad lleol â De Cymru a Gwent (ardaloedd Comisiynydd Heddlu a Throseddu). Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys:

1. **Llety â Chymorth Arbenigol:**

Mae tîm penodedig o Weithwyr Cymorth yn cynorthwyo pobl ifanc i gael gafael ar ac ymgartrefu mewn cartref diogel sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol, lle maen nhw'n gallu datblygu sgiliau byw yn annibynnol, gwella gwytnwch ac yn y pen draw leihau eu risg o aildroseddu wrth iddyn nhw ail-integreiddio i'r gymuned. Darperir cymorth dwys ar unwaith ar gyfer unrhyw faterion personol/ymarferol ar ddiwrnod rhyddhau unigolyn; cyfnod allweddol ar gyfer ymgysylltiad llwyddiannus.

2. **Cyfryngu Teuluol Cyn-Rhyddhau:**

Mae Llamau yn cydweithio'n agos â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF i ddarparu gwasanaeth cyfryngu teuluol penodol cyn-rhyddhau ar gyfer pobl ifanc yn CEF Caerdydd/CEF y Parc, os oes gwrthdaro teuluol wedi'i nodi a allai effeithio ar ailsefydlu unigolyn yn gadarnhaol ar ôl ei ryddhau; gan gynyddu cyfleoedd i gael llety priodol a rhwydweithiau cefnogol hanfodol sy'n atal aildroseddu.

Mae cyfryngwyr medrus yn ymgysylltu â phobl ifanc a'u teuluoedd mewn lleoliadau carchar a chymunedol trwy ddulliau gwennol, wyneb yn wyneb, a rhithwir yn ôl yr angen er mwyn nodi a datrys y problemau sydd wedi arwain at fethiant perthynas a'r bygythiad o ddigartrefedd/tai amhriodol adeg rhyddhau'r unigolyn. Mae cyfryngwyr yn gweithio gyda phawb yng nghartref y teulu i nodi achosion gwrthdaro o bob safbwynt, gan geisio sicrhau cyd-ddealltwriaeth a chydnabyddiaeth o safbwyntiau gwahanol.

Nod y prosiect yw uwchsgilio teuluoedd gyda'r adnoddau a'r hyder fel y gallan nhw ddatrys gwrthdaro a'u helpu i gael gafael ar gymorth arbenigol sy'n galluogi pobl ifanc i aros yn ddiogel yng nghartref y teulu. Os nad yw hyn yn bosibl oherwydd unrhyw risg diogelu i/gan y person â phrofiad o fod mewn gofal, mae cyfryngwyr yn ceisio gwella'r berthynas ag aelodau priodol o'r teulu a hwyluso cymorth a llety amgen lle bo hynny'n bosibl.

3. **Canolfan Amlasiantaeth**

Mae Cymru Ddiogelach wedi sefydlu canolfan gymorth amlasiantaeth gynhwysol, newydd yng Nghaerdydd ar gyfer unrhyw berson ifanc sy'n gadael carchar (gan gynnwys merched); gan gydgysylltu llwybr gwasanaethau personol a di-dor o fan diogel canolog, hygyrch sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol.

## Dulliau a Awgrymir

Mae sicrhau bod swyddog tai yn aelod o'r tîm gadael gofal yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr. Mae'n gallu darparu cymorth i wella gwybodaeth am dai ymysg cynghorwyr personol, yn ogystal â darparu cyngor arbenigol ar dai i bobl ifanc a'u helpu i gael mynediad at ddewisiadau tai gwahanol. Mae llawer o adrannau tai wedi cynnwys swyddogion tai mewn timau gadael gofal fel rhan o'u cyfraniad fel 'rhiant corfforaethol', neu maen nhw wedi gwneud trefniant 'rhithwir'.

- Ystyriwch sefydlu panel i edrych ar holl achosion pobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae hyn yn ffordd effeithiol o hyrwyddo cydweithio hefyd. Fel arfer, mae paneli yn cynnwys staff o dimau gadael gofal a dewisiadau tai, ond gallen nhw hefyd gydweithio â darparwyr llety a chymorth o'r sector gwirfoddol yn yr ardal leol
- Darparwch welyau tymor byr ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael carchar. Os nad oes opsiwn tai a chymorth mwy hirdymor yn barod ar gyfer pobl ifanc eto, gallan nhw aros mewn amgylchedd â chymorth am ychydig ddyddiau cyn symud
- Mae angen cynnwys gofalwyr maeth a phreswyl ac oedolion eraill y gellir ymddiried ynddyn nhw i helpu pobl ifanc i feddwl am eu dewisiadau a gwneud dewis ar sail gwybodaeth am ble maen nhw eisiau byw

- Lle bynnag y bo modd, mae angen rhoi cyfle i bobl ifanc sy'n gadael gofal gael blas ar fathau gwahanol o lety cyn gwneud eu dewisiadau, megis tai â chymorth, llety â chymorth, rhannu fflat neu eu tenantiaeth eu hunain ac ati.

# LLEIHAU'R ARGYFWNG TAI

Yn Abertawe, mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu mynd i'r afael yn rhagweithiol â'r defnydd o lety gwely a brecwast ymysg pobl ifanc. Er mwyn gwneud hyn, aeth prif swyddog ati i arwain grŵp llywio amlasiantaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaethau cymdeithasol, tai, y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, Barnardo's Cymru, Wallich, Prosiect Digartrefedd Pobl Ifanc Sengl Abertawe a Gwalia. Gyda'i gilydd fe wnaethant ddyfeisio dull mwy pwrpasol o ddiwallu anghenion cymorth pobl ifanc sydd mewn perygl o fynd i lety gwely a brecwast, ac o gynllunio darpariaeth amgen. Cafodd hyn effaith sylweddol ar y defnydd o lety gwely a brecwast o safbwynt atal pobl ifanc rhag cael eu gosod yno. Ond yn ogystal â hynny, newidiodd sut mae llety gwely a brecwast yn cael ei ystyried yn lleol - nid oedd yn cael ei ystyried yn ddewis hyfyw bellach.

## Cyfryngu

Mae Llamau yn darparu gwasanaeth cyfryngu ar gyfer 10 awdurdod lleol sy'n rhan annatod neu'n cyd-fynd â gwasanaethau statudol i atal digartrefedd ymysg pobl ifanc. Ceir enghraifft dda ym Mro Morgannwg, lle mae 'siop un stop' yn dwyn ynghyd wasanaeth cyfryngu Llamau a Gwasanaethau Plant, Tai a Gwasanaeth Jigso Llamau – gwasanaeth cynghori ar dai / hawliau lles a thŷ llety â chymorth. Mae'r gwasanaethau cyfryngu yn gweithio gyda theuluoedd a phobl ifanc mewn gofal hefyd, lle mae risg y bydd lleoliad yn methu.

Mae'r model cyfryngu a ddefnyddir yn rhagweithiol, ac yn cynnig ymateb uniongyrchol i ofalwyr/teuluoedd pan fo angen ac yn defnyddio ymweliadau cartref – adnodd atal hanfodol ynddo ei hun – a chyd-drafod mwy anffurfiol yn ogystal â sgiliau cyfryngu. Yn genedlaethol, mae llawer o bobl ifanc yn dweud y bydden nhw wedi gweithio'n galetach o bosibl i gyd-dynnu â'u gofalwyr/rhieni/gwarcheidwaid pe baen nhw wedi sylweddoli beth oedd realiti gadael cartref neu ofal yn gynnar. Er bod Llamau bob amser yn ystyried diogelu, mae'n ceisio cyfleu realiti'r sefyllfa'n ymarferol o ran y mathau tebygol o lety a gynigir i bobl ifanc, eu lleoliad a heriau o ran fforddiadwyedd. Ond hyd yn oed pan na all pobl ifanc aros gartref neu mewn lleoliadau gofal, mae gweithwyr cyfryngu yn ceisio eu helpu i symud mewn ffordd fwy cynlluniedig ac, yn bwysig, yn hyrwyddo cyswllt cadarnhaol parhaus â gofalwyr/rheini pan fo'n ddiogel gwneud hynny. Mae pobl ifanc yn dweud bod cyfryngu o fudd mawr hyd yn oed pan na allan nhw aros yng nghartref gofalwr neu gartref teuluol.

Pan fydd cyllid a chontractau yn caniatáu hynny, bydd gweithwyr cyfryngu yn gweithio gyda phobl ifanc yn eu harddegau cynnar, 14-15 oed. Adroddir bod hon yn ffordd hynod effeithiol o atal argyfwng digartrefedd pan fyddan nhw'n hŷn.

## Cynadledda mewn grŵp teuluol

Comisiynwyd Barnardo's Cymru i ddarparu gwasanaeth cynadledda mewn grŵp teuluol yng Nghastell-nedd Port Talbot fel rhan o'r bartneriaeth 'Meddwl am y Teulu'. Mae'r gwasanaeth cynadledda mewn grŵp teuluol yn dwyn ynghyd aelodau'r teulu a ffrindiau agos i fynychu cyfarfodydd teuluol sy'n mynd i'r afael ag anghenion gofal plentyn unigol neu berson â phrofiad o fod mewn gofal. Y canlyniad dymunol yw creu cynllun teuluol diogel a realistig sy'n nodi sut mae'r teulu estynedig a ffrindiau yn gallu helpu i fynd i'r afael ag anghenion yr unigolyn (gan gynnwys llety). Mae'r cynllun yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd. Hefyd, mae'r gwasanaeth yn darparu adroddiadau llys ac eiriolaeth ar gyfer rhieni, plant a phobl ifanc. Mae'r gwasanaeth yn derbyn nifer uchel o atgyfeiriadau ar gyfer plant 15 ac 16 oed, ac mae wedi gweithio gyda phobl ifanc 17 oed. Hefyd, mae'r gwasanaeth wedi gweithio gyda rhieni ifanc sy'n agored i niwed sydd â babi neu blentyn y mae'r gwasanaeth cynadledda mewn grŵp teuluol yn ymwneud ag e. Yn aml, bydd llety yn rhan bwysig o'r materion a godir ar gyfer pobl ifanc yn ystod llencyndod, ac nid oes unrhyw reswm pam na ellid defnyddio model cynadledda mewn grŵp teuluol gyda phobl ifanc hŷn.

## Dulliau a Awgrymir

- Os nad oes opsiwn i ddefnyddio gwasanaeth cynadledda mewn grŵp teuluol neu wasanaeth cyfryngu, a oes gan y staff yn eich gwasanaeth y sgiliau a'r hyder i wneud gwaith cyfryngu a thrafod? Os na, mae asiantaethau ar gael sy'n cynnig hyfforddiant achrededig ar gyfryngu
- Mae rhai gwasanaethau dewisiadau tai wedi buddsoddi yn yr hyfforddiant hwn. Gallech ystyried comisiynu hyfforddiant rhwng sawl sefydliad gwahanol, gan fod y rhain yn sgiliau cyffredinol y gallai staff mewn nifer o asiantaethau gwahanol wneud defnydd ohonynt
- Yn 2011, cyhoeddodd yr elusen Depaul UK amlinelliad defnyddiol o fanteision cyfryngu gyda phobl ifanc, yn seiliedig ar ei phrofiad o ddarparu gwasanaeth cyfryngu teuluol ar gyfer sawl prosiect yn Lloegr. Mae hyn yn cynnwys achos busnes ar gyfer buddsoddiad sy'n seiliedig ar ddadansoddiad cost a budd manwl ac arbedion i'r pwrs cyhoeddus
- Mae cynlluniau wrth gefn yn ddefnyddiol iawn oherwydd eu bod yn gallu helpu i leihau achosion o argyfwng
- Mae man gwybodaeth dynodedig ar gyfer cyngor a chymorth cynnar fel y'i nodwyd mewn deddfwriaeth yn gallu helpu i osgoi argyfwng
- Mae rhai sefydliadau troseddwyr ifanc yn caniatáu i bobl ifanc sy'n paratoi i adael y sefydliad ddefnyddio Skype i gymryd rhan mewn cyfweliadau asesu gyda darparwyr tai
- Bydd angen gwneud trefniadau llety gwyliau ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal ac sy'n mynychu prifysgolion neu golegau addysg bellach.prifysgolion neu golegau addysg bellach

# CAEL MYNEDIAD AT DAI A CHYMORTH YN ÔL YR ANGEN

## Cynllun Tai Digartref

Fe wnaeth Cyngor Sir Ynys Môn ddatblygu dewislen o ddewisiadau llety i bobl ifanc, gan gynnwys cynllun i'r rhai sydd ag anghenion cymhleth neu luosog. Mae Digartref yn cynnal cynllun tai â chymorth saith gwely yn Llangefni.

Derbyniodd y prosiect bobl ifanc â lefelau angen uwch a fyddai, yn y rhan fwyaf o achosion, yn cael eu hystyried yn rhy uchel i'w lleoli mewn mathau eraill o ddarpariaeth tai â chymorth. Mae anghenion pobl ifanc yn cynnwys camddefnyddio sylweddau a/neu droseddu, problemau iechyd meddwl gan gynnwys hunan-niweidio, a mathau o ymddygiad hynod heriol. Cafodd y gwasanaeth ei gomisiynu ym mis Mai 2013, ac o'r dechrau mae wedi cynnwys panel dyrannu amlasiantaeth sy'n cyfarfod i ystyried atgyfeiriadau a rhannu gwybodaeth ac arferion da yn gyffredinol bob mis neu pan fydd lle gwag yn codi. Mae'r asiantaethau sy'n cael eu cynrychioli yn y grŵp yn cynnwys gwasanaethau plant, gwasanaethau tai, gwasanaethau iechyd meddwl, troseddau ieuenctid, a'r gwasanaeth prawf. Digartref yw darparwr y gwasanaeth.

Mae'r galw am y gwasanaeth hwn wedi bod yn llawer uwch na'r disgwyl, ac mae'n rhaid i'r broses atgyfeirio fynd trwy un o'r asiantaethau statudol y cyfeiriwyd atynt uchod. Mae'r lefelau o gyfnodau gwag wedi bod yn isel iawn, ac o ystyried lefel anghenion heriol rhai o'r bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth, mae canlyniadau'r prosiect hwn yn profi ymrwymiad ac ymroddiad darparwr y gwasanaeth a pharodrwydd yr holl asiantaethau partner i gydweithio i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer y bobl ifanc heriol ond hynod agored i niwed hyn.

Yn ogystal â'r cynllun saith gwely, mae clwstwr o ddau eiddo ar gael y gellir eu defnyddio fel adnodd symud ymlaen/'cymorth llai dwys' neu ar gyfer person â phrofiad o fod mewn gofal sydd â lefel risg is, yn dymuno byw mewn llety nad yw'n cael ei rannu, neu'n feichiog.

## Llwybr Gwasanaeth Cymorth Uwch Pobl Ifanc Cyngor Torfaen

Menter ar y cyd rhwng Gwasanaeth Plant a Theuluoedd Torfaen a Gwasanaeth Grant Cymorth Tai Torfaen yw'r Llwybr Gwasanaeth Cymorth Uwch Pobl Ifanc. Mae'r gwasanaeth yn darparu llwybr cymorth clir sy'n gallu diwallu anghenion sy'n newid a chaniatáu mynediad at lefelau priodol o ddarpariaeth.

Mae'r gwasanaeth hwn ar gael i bobl ifanc rhwng 16 a 21 oed, sy'n hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac sy'n cael eu cefnogi trwy Wasanaeth Cymorth Pobl Ifanc Torfaen. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael yn bennaf i bobl ifanc sydd â statws categori un, dau a thri fel y'u diffinnir gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.[2]

Mae'r gwasanaeth yn darparu Llwybr sy'n darparu llety â chymorth tymor byr, canolig a hirdymor ar gyfer y boblogaeth 16+ berthnasol yn Nhorfaen. Mae'n darparu cyfres o ddewisiadau llety a chymorth i adlewyrchu anghenion amrywiol a chymhleth pobl sy'n gadael gofal ac yn ychwanegu adnodd ar gyfer pobl ifanc ddigartref lle mae pob opsiwn arall wedi'i ddisbyddu, trwy gydweithio â gwasanaethau Grant Cymorth Tai.

Mae'n darparu llwybr diogel i sicrhau bod pobl ifanc 16 oed, sy'n cael llety ar hyn o bryd mewn lleoliadau preswyl cost uchel neu leoliadau y tu allan i'r sir, yn gallu dychwelyd i'w bwrdeistref gartref. Hefyd, mae'n sicrhau bod gan bobl ifanc y sgiliau priodol sydd eu hangen i gynnal tenantiaeth yn y dyfodol a gofalu amdanynt eu hunain yn briodol. Mae rhai pobl ifanc yn ymdopi'n well mewn amgylcheddau llai o ran maint nag mewn lleoliadau grŵp a hostelau mawr, a bydd eraill yn ymdopi'n well mewn amgylcheddau mwy dibynnol a chefnogol, fel lleoliadau maeth. Roedd yn bwysig bod Cyngor Torfaen yn datblygu ystod eang o ddarpariaeth gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion amrywiol, sy'n gymhleth yn aml.

Hefyd, mae Cyngor Torfaen wedi gallu defnyddio ESS i gefnogi a chynorthwyo pobl ifanc ar 'ymyl gofal' a phobl ifanc sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae hyn wedi bod yn hollbwysig wrth ymateb i sefyllfaoedd argyfyngus.

Mae gweithio mewn partneriaeth wrth galon y prosiect hwn a daw atgyfeiriadau trwy banel (Panel Mynediad at Dai ar gyfer Pobl â Phrofiad o fod mewn Gofal Torfaen) sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Wasanaeth Plant a Theuluoedd Torfaen, (gan gynnwys Rheolwr Tîm 16+ Torfaen), Uned Comisiynu Gofal Cymdeithasol Torfaen, Tîm Grant Cymorth Tai Torfaen, Tîm Mynediad at Dai Torfaen, Tîm Strategaeth Dai Torfaen a phartneriaid ehangach yn ôl yr angen. Y nod cyffredin oedd datblygu gwasanaeth hyblyg ac arloesol sy'n darparu cyfres o ddewisiadau ar gyfer pobl ifanc 16+ oed a allai fel arall gael trafferth ddod o hyd i lety sydd â'r lefel briodol o ofal a chymorth. Mae'r model yn cynnig dull mwy personol o ddarparu gofal a chymorth ond mae'n canolbwyntio hefyd ar annibyniaeth hirdymor ac ar hybu dewis a rheolaeth. Mae'r egwyddorion sy'n gysylltiedig â darparu cymorth yn ceisio sicrhau'r canlynol:

- Mae'r gwasanaeth yn hyblyg ac yn seiliedig ar anghenion asesedig yr unigolyn
- Mae'r gwasanaeth a ddarperir o ansawdd uchel
- Mae'r gwasanaeth yn gwella prosesau cydweithio rhwng Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Thai trwy weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i sicrhau bod pobl ifanc agored i niwed yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw o bosibl, a'u bod yn gallu cael gafael arnyn nhw

2 Llywodraeth Cymru (2018) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Rhan 6 Cod Ymarfer (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya (Fersiwn 2) Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/cod-ymarfer-rhan-6-plant-yn-derbyn-gofal-a-phlant-syn-cael-eu-lletya.pdf (Cyrchwyd 12 Ionawr 2022)

## Dulliau a Awgrymir

- Mae prosiectau llety â chymorth yn tueddu i fod yn fwy effeithiol os ydyn nhw'n brosiectau bach sy'n gallu cynnig cymorth mwy pwrpasol i bobl ifanc. Fel arfer, nid yw cynlluniau mwy o ran maint ar gyfer pobl ifanc sydd ag anghenion sylfaenol i uchel, neu gynlluniau ar gyfer oedran cymysg, mor effeithiol wrth gynorthwyo'r rhai sy'n gadael gofal. Mae dewisiadau llety sydd ar gael i'r rhai sy'n gadael gofal a phobl ifanc eraill yn dda yn aml, gan eu bod yn caniatáu i bobl ifanc gymysgu, sy'n un o fanteision eraill posibl comisiynu ar y cyd
- Pan fydd adrannau yn cydweithio'n agos ar sail canlyniadau cyffredin a chyllidebau a systemau rheoli a rennir, mae llwybrau llety a chymorth i bobl ifanc yn fwy effeithiol
- Wrth osod pobl sy'n gadael gofal mewn llety neu eu symud ymlaen, mae'n bwysig meddwl yn gyfannol am eu hanghenion ac am oblygiadau posibl eu symud ar gyfer elfennau eraill o'r cynllun llwybr, fel addysg neu gyflogaeth
- Dylai comisiynwyr annog darparwyr i sefydlu partneriaeth strategol â'r awdurdod lleol a chydnabod y gwerth ychwanegol sydd wedi deillio o brosesau arloesol, rhaglenni ychwanegol a hyblygrwydd gweithio
- Yn aml, mae pobl ifanc yn siarad am ansawdd y berthynas â phobl arwyddocaol yn eu bywydau, gan gynnwys gweithwyr cymorth tai a chynghorwyr personol. Mae'r cydbwysedd rhwng ansawdd a chost mewn unrhyw broses dendro yn fater i gomisiynwyr, ond gall cyflogau fesul awr is arwain at drosiant staff uwch neu lai o staff medrus neu brofiadol



# CYRCHU A RHEOLI'N LLWYDDIANNUS DDEWISIADAU SYMUD YMLAEN A CHYMORTH MWY HIRDYMOR

## Pecyn Cymorth Hyfforddiant Crisis

Mae Crisis wedi datblygu pecyn cymorth hyfforddi ar gyfer staff cymorth sy'n gweithio gyda phobl ifanc i'w haddysgu am fyw yn y sector rhentu preifat. Mae'r pecyn cymorth yn esbonio hawliau tenantiaid, ac yn egluro rhai mythau - er enghraifft yn ymwneud â throi allan a chynyddu costau rhent. Hefyd, mae'n darparu dolenni i raglenni hyfforddi cyn-denantiaeth eraill.

## Dulliau a Awgrymir

- Ystyriwch y dewis o rannu tai cymdeithasol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal neu bobl ifanc eraill
- Timau tai yw'r arbenigwyr wrth weithio gyda landlordiaid preifat, ac mae'n debygol y bydd ganddyn nhw gynllun mynediad ar gyfer y sector rhentu preifat. Yn hytrach na datblygu cynllun gwahanol, dylech geisio gweithio gyda'r cynllun sydd ar gael yn barod. Gallai hyn gynnwys cymryd eiddo ar brydles neu drwydded, a'i is-osod i bobl ifanc fel rhan o'u taith tuag at annibyniaeth. Rhaid bod yn ymwybodol o'r newidiadau tenantiaeth newydd yn Neddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 - gweler y ddogfen Fframwaith Cyfreithiol am ragor o wybodaeth
- Wrth gynorthwyo'r rhai sy'n gadael gofal i ddod o hyd i lety addas, mae'n rhaid i gynghorwyr personol sicrhau bod y dewis yn fforddiadwy o safbwynt incwm y person sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mae'n bwysig bod cynghorwyr personol yn helpu pobl ifanc i wybod sut y byddan nhw'n parhau i dalu am eu llety os ydyn nhw'n byw yn y sector rhentu preifat ar ôl i'w budd-dal tai leihau pan fyddan nhw'n 22 oed i lefel y gyfradd llety a rennir. Fel arall, mae perygl go iawn y gallai'r rhai sy'n gadael gofal golli eu tai. Ni fydd gan lawer o bobl sy'n gadael gofal ymgynghorydd personol wrth droi'n 22 oed, felly mae cynllunio ymlaen llaw yn hollbwysig
- Weithiau, mae'r rhai sy'n gadael gofal sy'n cael eu symud yn rheolaidd yn wynebu'r perygl o ddifrod i'w heiddo, neu ei golli, gan nad ydyn nhw mewn sefyllfa i amddiffyn neu storio eu heiddo personol. O dan Adran 93 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol i wneud trefniadau i amddiffyn neu storio'r eiddo dan amgylchiadau lle, er enghraifft, mae'r person sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn sâl neu'n methu fforddio talu i storio ei eiddo

**sheltercymru.org.uk**

Registered charity no. 515902